**Prosiect Dehongliad Rheilffordd a Boston Lodge**

# Gweinyddwr Peirianneg dan Hyfforddiant

## Cynllun Hyfforddiant

| | Cwestiwn/Tasg | Ymateb/Disgrifiad |
|---|---|---|
| 1 | **Enw a disgrifiad swydd y sawl sydd dan Hyfforddiant** | **Gweinyddwr Peirianneg dan Hyfforddiant**<br><br>Bydd y sawl sydd dan hyfforddiant yn gweithio gyda'r Gweinyddwr Gwaith, y Rheolwr Gweithrediadau a’r Arweinydd Gwirfoddolwyr Peirianneg i gefnogi’r weinyddiaeth gynhyrchu (gan sicrhau bod gan y gweithdai y deunyddiau cywir ar yr adeg gywir). Byddant hefyd yn gyfrifol am reoli safleoedd yn gyffredinol, ymgymryd â gweinyddiaeth staff a gwirfoddolwyr o gadw cofnod o amserlenni hyd at olrhain cymwyseddau mewn cronfa ddata yn ogystal â chefnogi'r adran weithrediadau pan fo angen.<br><br>Bydd hyn yn addas i berson ifanc sy'n well ganddo/ganddi ddysgu yn y swydd ac sy’n awyddus i weithio mewn amgylchedd peirianneg a chael gwybod am y sgiliau sydd eu hangen i gynnal y gweithdai a chadw’r trenau yn gweithredu’n ddidrafferth.<br><br>Bydd yn cael ei fentora yn broffesiynol gan sefydliad Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri (FfWHR). Bydd y sawl sydd dan hyfforddiant yn cael ei gefnogi drwy raglen hyfforddi a datblygu, gan gynnwys ennill y cymwysterau priodol. |
| 2 | **Rheolwr Hyfforddiant** | • Cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y Gweinyddwr Gwaith<br>• Mentor – rhoi mewnwelediad proffesiynol a chanfod cyfleoedd ar gyfer datblygiad pellach yn ôl diddordeb |

| | Cwestiwn/Tasg | Ymateb/Disgrifiad |
|---|---|---|
| 3 | **Sgiliau penodol i'w dysgu** | • Gwerthfawrogiad o holl feysydd gwaith a gweithrediadau peirianneg FfWHR<br>• Gweinyddiaeth Gyffredinol ar gyfer staff ac Adran Gweithrediadau Boston Lodge<br>• Amserlenni (cofnodi oriau gwaith yn erbyn prosiectau cyfalaf allanol, staff a gwirfoddolwyr)<br>• Caffael<br>• Archebu cyfarpar ar gyfer staff / creu anfonebau<br>• Rheoli cronfeydd data ar gyfer cofnodi cymwyseddau staff/gwirfoddolwyr<br>• Monitro'r defnydd o ynni a helpu i olrhain cynaliadwyedd |
| 4 | **Hyfforddiant sefydlu (ee Iechyd a Diogelwch, heriau a gofynion penodol o weithio'n ddiogel ar neu wrth ochr llinell reilffordd weithredol, hanes y rheilffyrdd, sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid, datblygiad a hyfforddiant ac ati)** | • Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith<br>• Pwrpas y swyddogaeth hon<br>• Cyflwyniad ffurfiol i'r cwmni - Pwy ydym ni? Hierarchaeth teulu enfawr FfWHR<br>• Gwerthoedd ac Ymddygiadau FfWHR<br>• Heriau a gofynion penodol o weithio'n ddiogel ar linell reilffordd weithredol neu wrth ei hochr<br>• Hanes rheilffyrdd WHR a FfWHR<br>• Cefndir Prosiect Dehongli NLHF a Boston Lodge<br>• Systemau TG FFWHR |
| 5 | **Cymhwyster i'w ennill gan y sawl sydd dan hyfforddiant** | Diploma City & Guilds Lefel 2/3 mewn Gweinyddu Busnes, o bosibl. |
| 6 | **Manylion unrhyw hyfforddiant allanol sydd ei angen ar gyfer y** | Aelodaeth blwyddyn fel myfyrwyr o sefydliad proffesiynol |

| | Cwestiwn/Tasg | Ymateb/Disgrifiad |
|---|---|---|
| | **sawl sydd dan hyfforddiant (ee diwrnod yr wythnos yn y coleg)** | |
| 7 | **Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant yn fewnol?** | • Gweinyddwr Gwaith - o ddydd i ddydd<br>• Swyddog Lleoliad Gwaith i oruchwylio'r rhaglen hyfforddi a chynnig gofal bugeiliol<br>• Rheolwr Swyddfa'r Rheolwyr Cyffredinol (FfWHR) - mentora proffesiynol i annog meysydd sydd o ddiddordeb ac adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu |
| 8 | **Cymwysterau/ achrediadau presennol hyfforddwyr** | Gweinyddu cynyrchiadau helaeth a phrofiad gweithredol o FfWHR. |
| 9 | **A oes angen unrhyw hyfforddiant 'hyfforddi'r hyfforddwr' pellach?** | Nac oes |
| 10 | **Lleoliad gyda sefydliad treftadaeth arall** | O leiaf 1 x wythnos gyda phartner lleoliad - i'w ganfod yn ôl anghenion datblygu'r sawl sydd dan hyfforddiant |
| 11 | **Lleoliad mewn sefydliadau treftadaeth/diwylliannol/amgylcheddol eraill?** | I'w drefnu gan y Rheolwr Seilwaith neu un sy'n gysylltiedig â phrosiectau eraill. Efallai bod gan ymgynghorwyr FfWHR gysylltiadau â nhw. |
| | | **RECRIWTIO YMGEISWYR** |
| 12 | **Pa unigolyn y gallai'r cwrs hwn apelio ato/ati? Doniau/angerdd/ diddordebau** | Pobl a allai fod â diddordeb mewn gwneud cais:<br>• Pobl ifanc yng Ngwynedd sy'n gobeithio datblygu sgiliau ac ehangu eu dewisiadau gyrfa<br>• Cyfranogwyr presennol mewn rhaglen prentisiaeth / dan hyfforddiant yng Ngrŵp Llandrillo Menai / Hyfforddiant Gogledd Cymru |

| | Cwestiwn/Tasg | Ymateb/Disgrifiad |
|---|---|---|
| | | • Staff yn FfWHR sydd â diddordeb mewn datblygu sgiliau gweinyddol mewn amgylchedd peirianneg/gweithredol |
| 13 | **Beth yw'r lleiafswm cymwysterau/sgiliau sydd eu hangen ar y sawl sydd dan hyfforddiant** | Rhaid i'r ymgeisydd addas feddu ar:<br>• O leiaf pum TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg neu NVQ2 cyfwerth. Mae croeso i ymgeiswyr â chymwysterau uwch wneud cais.<br>• Y gallu i roi sylw i fanylion a sgiliau trefnu da<br>• Sgiliau TG a mathemateg da<br>• Sgiliau cyfathrebu da (ysgrifenedig a llafar)<br>• Yr gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol iawn |
| 14 | **Ble i recriwtio ymgeiswyr?** | • Hysbysebu'n lleol trwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>• Grŵp Llandrillo Menai / colegau lleol eraill<br>• Ar-lein drwy wefan Facebook a Twitter/ gwefan y cwmni<br>• Gyrfa Cymru<br>• Indeed a findajob |
| 15 | **Pa offer, deunyddiau a dillad diogelwch penodol fydd eu hangen? Beth yw'r amcangyfrif o'r gost ar gyfer unigolion bob blwyddyn** | Iwnifform a Dillad Diogelwch<br>• Esgidiau diogelwch<br>• Fest High vis<br>• Siacedi sy'n dal dŵr gyda logo FfWHR arnynt<br><br>TG<br>• Gliniadur / cyfrifiadur |
| | | **CYMORTH GYDA DOD O HYD I WAITH NEU HYFFORDDIANT** |
| 16 | **Pa lwybrau gyrfa/cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael ar ôl i'r cwrs ddod i ben?** | Cynigir yr hyfforddiant canlynol i bawb sydd dan hyfforddiant fel rhan o'u rhaglen hyfforddi er mwyn sicrhau eu bod yn 'barod am waith':<br>• Cysgodi aelodau eraill o staff FfWHR (gan gynnwys hyfforddeiaethau eraill) er mwyn cael gwybod am feysydd gwaith eraill<br>• Cymorth ar sut i ysgrifennu CV<br>• Gweithdy ar y sgiliau sydd eu hangen i lwyddo mewn cyfweliad<br>• Geirdaon a ddarperir gan reolwr (rheolwyr) perthnasol<br>• Cymwysterau/Tystysgrifau |

| | Cwestiwn/Tasg | Ymateb/Disgrifiad |
|---|---|---|
| | | • Rôl weinyddol barhaus o fewn FfWHR, o bosib<br>• Profiad gwaith a gweithio ochr yn ochr â sefydliadau treftadaeth eraill ac ati. Mae'r gallu i rwydweithio ac adeiladu cysylltiadau ar gyfer y dyfodol wedi'i gynnwys yn yr hyfforddiant<br>• Cyfleoedd i gymryd rôl arweiniol mewn digwyddiadau gwirfoddol, meithrin sgiliau a chyfleu gwybodaeth<br>• Gweithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr newydd a llai profiadol a'u hyfforddi |
| 17 | **Sut gallai FFWHR helpu'r sawl sydd dan hyfforddiant i ddod o hyd i gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant pellach ar ôl i'r cwrs ddod i ben?** | Geirdaon<br>Argymhellion personol<br>Cyfleoedd a chyflwyniadau rhwydweithio.<br>Ffeiriau swyddi a seminarau a digwyddiadau cysylltiedig:<br>• Amgueddfeydd<br>• Safleoedd treftadaeth<br>• CADW - Cymru<br>• English Heritage<br>• Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>• Parciau Gwledig<br>• Amgueddfeydd/sefydliadau Treftadaeth Rheilffyrdd |
| 18 | **Beth fyddai'r dull gorau i'r sawl sydd dan hyfforddiant i gofnodi a dangos eu profiad i gyflogwyr/ mewn hyfforddiant pellach yn y dyfodol?** | Log CPD – i'w wneud ar ddechrau'r hyfforddeiaeth. Beth ydych chi'n ei wybod nawr, beth ydych chi angen ei wybod, beth hoffech chi ddatblygu ymhellach, ac i hyn gael ei gyfleu a'i rannu ar y diwedd, gyda'r canlynol:<br>• Adroddiadau cynnydd ysgrifenedig a ffotograffig wythnosol<br>• Cofnod o'r holl hyfforddiant a wnaed (ysgrifenedig, ffotograffig, tystysgrifau ac ati)<br>• Cofnod o bob arsylwad o fewn y sefydliad a phethau a ddysgwyd<br>• Cofnod o'r holl leoliadau gwaith a wnaed<br>• Cofnod o'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â mentor<br>• Tystysgrifau a gwybodaeth arholiadau i brofi'r cyflawniad - hyfforddiant/achrediadau allanol |